WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y Ddogfen: 120A2012



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau'r heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'n flynyddol y rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn o gyllid a bleidleisir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Caiff bron i £5.5 biliwn o'r cyllid hwn ei drosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a grantiau penodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall drwy'r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hyrwyddo gwelliant, fel bod pobl yng Nghymru yn elwa o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymroddedig i nodi a lledaenu arfer da ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gefnogaeth gan Rod Alcott, Jeremy Evans a chydweithwyr o dan oruchwyliaeth Jane Holownia i gynnal yr Asesiad Gwella ac i gynhyrchu'r adroddiad hwn.

Darlun clawr © Dinas a Sir Abertawe

# Cynnwys

**Crynodeb a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 8

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau da a rhai sy'n gwella mewn meysydd pwysig ac nawr mae angen iddo gael llai o flaenoriaethau a gwerthuso ei berfformiad yn well er mwyn cefnogi gwelliant yn y dyfodol 9

Mae gan y Cyngor lawer o drefniadau priodol ar waith i gefnogi gwelliant ond mae ganddo ormod o flaenoriaethau er mwyn gallu canolbwyntio'n glir ar wneud penderfyniadau 10

At ei gilydd, mae'r Cyngor wedi gwneud yr hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud yn ei feysydd blaenoriaeth 14

Mae'r Cyngor wedi gwella ei gymorth i bobl mewn angen 14

Mae'r Cyngor yn darparu cymorth da i helpu pobl i ddatblygu 16

Mae'r Cyngor wedi gwneud y rhan fwyaf o'r hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud i helpu i greu a chadw'r ardal yn lle diogel, ffyniannus a phleserus 17

Mae'r Cyngor yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu ond nid yw'n gwerthuso canlyniad y camau gweithredu hyn yn gyson; mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i adrodd a disgrifio gwelliant mewn modd arwyddocaol 21

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 24

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Abertawe a Chyngor Dinas a Sir Abertawe 25

**Atodiad 3**
Cyfrifon Cyngor Dinas a Sir Abertawe a'i ddefnydd o adnoddau 27

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Dinas a Sir Abertawe 31

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar ba mor dda mae cynghorau Cymru, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda maent yn cyflwyno'u gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant o gymharu â'r llynedd. Mae tair prif ran i'r adroddiad, sy'n ymdrin â sut mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) yn mynd ati i gynllunio, cyflawni a gwerthuso gwelliant.

2 Ar y cyfan, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau da a rhai sy'n gwella mewn meysydd pwysig ac, erbyn hyn, mae angen iddo gael llai o flaenoriaethau a gwerthuso ei berfformiad yn well er mwyn cefnogi gwelliant yn y dyfodol. Mae'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn wedi'u crynhoi isod.

3 Canfuom fod gan y Cyngor lawer o drefniadau priodol ar waith i gefnogi gwelliant, ond mae ganddo ormod o flaenoriaethau er mwyn gallu canolbwyntio'n glir ar wneud penderfyniadau. Seiliom y casgliad hwn ar y canlynol:

- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, a chydag arweinyddiaeth glir, bydd yn parhau mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'i heriau ariannol;
- mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chynnal technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant;
- mae dull y Cyngor o reoli gwybodaeth yn dod yn fwy trylwyr ac yn gallu cefnogi gwelliannau pellach yn y dyfodol yn well;
- mae'r Cyngor yn ymroddedig i gynyddu dylanwad y cyhoedd ar ei fusnes a hybu ystod ehangach o ddulliau o ymgysylltu â'r cyhoedd;
- mae'r Cyngor yn bodloni ei rwymedigaeth statudol mewn perthynas â Deddf yr Iaith Gymraeg;
- mae gan y Cyngor ormod o flaenoriaethau er mwyn gallu canolbwyntio'n glir ar wneud penderfyniadau; ac
- mae'r Cyngor wedi ymateb yn dda i awgrymiadau blaenorol ar gyfer gwella, ond nid yw wedi mynd i'r afael yn llawn â'r argymhelliad statudol yn ymwneud â threfniadau'r pwyllgor cynllunio.

4 Hefyd, canfuom fod y Cyngor wedi cyflawni llawer o'r hyn yr oedd yn bwriadu ei gyflawni yn ei feysydd blaenoriaeth. Seiliom y casgliad hwn ar y canlynol:

- Ar y cyfan, gwnaeth y Cyngor gynnydd da tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella yn 2010-11 ac, yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan y Cyngor gynllun gweithredu ar waith i wella perfformiad lle nad oedd cystal â'r disgwyl.
- Mae'r Cyngor wedi gwella ei gymorth i bobl mewn angen. Mae gwasanaethau i blant yn gwella. Mae gwasanaethau i oedolion yn cael eu hail-lunio ac mae'r Cyngor wedi gosod y sylfeini ar gyfer gwella yn y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi gwneud y rhan fwyaf o'r hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud yn ei Amcanion Gwella o ran cynorthwyo pobl mewn angen, er y bu'r effaith ar berfformiad yn gymysg.

- Mae'r Cyngor yn darparu cymorth da i helpu pobl i ddatblygu. Mae perfformiad addysg yn dda, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, ac mae'r Cyngor wedi gwneud yr hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud yn ei Amcan Gwella yn ymwneud ag addysg; mae hyn wedi arwain at welliant cyffredinol mewn perfformiad.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud yr hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud yn ei Amcanion Gwella o ran helpu i greu a chadw'r ardal yn lle diogel, ffyniannus a phleserus. Yn ogystal, dylai camau gweithredu'r Cyngor, yn gweithio ar ei ben ei hun ac â'i bartneriaid, gael effaith fanteisiol ar anweithgarwch economaidd yn yr ardal.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn amlinellu ein barnau ar asesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad fod y Cyngor yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu, ond nid yw'n gwerthuso canlyniad y camau gweithredu hyn yn gyson. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i adrodd ar welliannau mewn modd arwyddocaol.

# Cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | Mae angen i'r Cyngor ddatblygu cyfres o flaenoriaethau wedi'u rhesymoli sydd yn ffurfio sail ar gyfer gwneud penderfyniadau a phennu sut i ddyrannu adnoddau. |
| **C2** | Er mwyn helpu dinasyddion i ddeall y cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud yn llawn o ran bodloni ei amcanion a gwella perfformiad, dylai'r Cyngor:<br>• fod yn glir ynghylch yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni;<br>• cyfathrebu'n glir i ddinasyddion lleol pa wahaniaeth y bydd cyflawni'r amcanion hyn yn ei wneud i'w bywydau;<br>• mesur ei berfformiad fel bod pawb yn deall p'un a yw'n gwella ai peidio a sut mae'n gwella; a<br>• sicrhau bod ei Adroddiad Blynyddol yn fwy arwyddocaol a chytbwys. |
| **C3** | Mae angen i'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â meysydd i'w datblygu a'u gwella a nodwyd mewn archwiliadau allanol ac adroddiadau arolygu blaenorol. |

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

6 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ar dudalen 2 cewch esboniad byr o'r hyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

7 Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd bob blwyddyn ar ba mor dda mae cynghorau Cymru, yr awdurdodau tân ac achub, a'r parciau cenedlaethol yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn cyflwyno'u gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan y Mesur. Gyda chymorth gan arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg), AGGCC a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, rydym wedi creu darlun o'r hyn mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut mae'n mynd ati i wneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn amlinellu'r cynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

8 Trwy gydol yr adroddiad, amlinellwn yr hyn mae angen i'r Cyngor ei wneud i wella'i wasanaethau. O gofio'r ystod eang o wasanaethau sy'n cael eu darparu a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol i ni beidio â dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw'n gyhoeddus o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os gwnawn gynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo wneud rhywbeth ynglŷn â hwy, a byddwn yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd.

9 Rydym am gael gwybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae’r Cyngor yn darparu gwasanaethau da a rhai sy’n gwella mewn meysydd pwysig ac nawr mae angen iddo gael llai o flaenoriaethau a gwerthuso ei berfformiad yn well er mwyn cefnogi gwelliant yn y dyfodol

10 Mae’r adroddiad hwn yn amlygu barn yr Archwilydd Cyffredinol am berfformiad Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) o ran cyflawni ei ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Llywiwyd y farn hon gan gwaith Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn, Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac AGGCC.

11 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau’r cyngor. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar y prif amcanion y mae’r Cyngor wedi’u gosod iddo’i hun a rhai ystyriaethau allweddol eraill fel hunanwerthuso ac adrodd i’r cyhoedd ar berfformiad. Mae’r adroddiad yn adeiladu ar adroddiadau Asesiad Corfforaethol a Gwella Blynyddol blaenorol a roddwyd i’r Cyngor a seiliwyd y casgliadau ar ein gwybodaeth gronnus a’n gwybodaeth ar y cyd, a chanfyddiadau'r gwaith a wnaed eleni.

12 Mae ein casgliad cyffredinol yn adlewyrchu cynnydd y Cyngor o ran darparu gwasanaethau da a rhai sy’n gwella mewn meysydd pwysig, ac yn cydnabod yr angen i ddatblygu blaenoriaethau clir a gwerthuso ei berfformiad yn well er mwyn cefnogi gwelliant yn y dyfodol. Mae blaenoriaethau wedi’u diffinio’n glir, ynghyd â’r gallu i werthuso perfformiad yn gywir, yn allweddol er mwyn dyrannu’r adnoddau sy’n hanfodol i gyflwyno gwelliant yn yr hinsawdd ariannol anodd gyfoes yn effeithlon. Pennu blaenoriaethu clir ac ennill ymroddiad iddynt, ynghyd â chreu diwylliant o werthuso beirniadol gwybodus, yw dwy o’r prif heriau y mae’r Cyngor yn eu hwynebu wrth iddo ymdrechu i wella’n barhaus.

13 Yn ogystal â hybu’r arfer o ddyrannu adnoddau’n effeithlon, mae hefyd yn bwysig meddu ar ddealltwriaeth dda o raddau’r cynnydd a’r gwelliant sy’n cael ei wneud er mwyn i’r Cyngor adrodd i ddinasyddion lleol ar berfformiad mewn modd arwyddocaol.

## Mae gan y Cyngor lawer o drefniadau priodol ar waith i gefnogi gwelliant ond mae ganddo ormod o flaenoriaethau er mwyn gallu canolbwyntio'n glir ar wneud penderfyniadau

14 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu ein hasesiad o ba mor dda y mae'r Cyngor yn cyflawni yn erbyn yr amcanion gwella y mae wedi'u gosod iddo'i hun (fel y rhestrir yn Atodiad 4) a sut mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn rheoli ei fusnes er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau. Hefyd, mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried a yw'n Cyngor wedi cymryd camau digonol a phriodol mewn ymateb i ystyriaethau a godwyd yn ein hadroddiad blaenorol.

15 Mae'r Cyngor yn dechrau newid y ffordd y mae'n gwneud pethau er mwyn bod yn fwy effeithlon. Mae Rhaglen Strategol y Cyngor yn monitro ac yn sbarduno cynnydd ar draws y Cyngor; mae'r Cyngor wedi rhoi proses cynllunio busnes ddiwygiedig ar waith yn llwyddiannus sydd, erbyn hyn, yn rhoi lefel briodol o ymroddiad a chymorth iddo. Mae hyn wedi rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa dda i sicrhau bod cynllunio busnes yn arwain cynnydd, yn ogystal ag alinio gweithgarwch adrannau â nodau strategol y Cyngor.

**Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, a chydag arweinyddiaeth glir, bydd yn parhau mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'i heriau ariannol**

16 Ers nifer o flynyddoedd, mae'r Cyngor wedi llunio cynllun ariannol tymor canolig blynyddol fel rhan o gyfres sefydledig o bapurau cyllidebol sy'n cael eu cymeradwyo gan aelodau bob gwanwyn. Ym mis Chwefror 2011, cymeradwywyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2012-13 - 2014-15 yn sail ar gyfer cynllun gwasanaethau a chyllid yn y dyfodol. Trwy roi cynlluniau ariannol tymor canolig a chyllidebau blynyddol olynol ar waith, mae'r Cyngor wedi dangos y gall wneud penderfyniadau clir yn amserol er mwyn cynnal ei iechyd ariannol. Mae'r Cyngor wedi dechrau paratoi cyllideb y flwyddyn nesaf a diweddaru ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig, ac mae'n gweithio ar ystod o ddewisiadau i gyflawni cyllideb gytbwys.

17 Gosododd y Cyngor gyllideb gwariant refeniw net o £384.5 miliwn yn 2010-11 a oedd yn cynnwys rhaglen heriol o arbedion, a ddaeth i gyfanswm o £11.3 miliwn, y mae angen iddo eu rhoi ar waith er mwyn cyflawni'r gyllideb. Ym mis Tachwedd 2011, ystyriodd cabinet y Cyngor adroddiad monitro ariannol ar gyfer chwe mis cyntaf 2011-12. Amlygodd hwnnw orwariant rhagamcanol o £4.5 miliwn ar gyllidebau gwasanaeth, yn codi yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn bennaf. Nodwyd camau gweithredu a luniwyd i gyflawni cyllideb gytbwys ac argaeledd Cronfa Wrth Gefn y Cyngor, sy'n dod i gyfanswm o £14.7 miliwn, i fodloni gofynion gwario annisgwyl posibl yn 2011-12 a'r dyfodol.

18 Mynegodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon 2010-11 y Cyngor ar 30 Medi 2011, a chanfu fod y datganiadau ariannol yn foddhaol, yn gyffredinol. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

**Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chynnal technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant**

19 Daeth ein hadolygiad o'r modd y mae'r Cyngor yn defnyddio technoleg, sy'n hanfodol ar gyfer gweddnewid y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu, yn gwella deilliannau i ddinasyddion ac yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd, i'r casgliad:

- bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chynnal technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant, ond bod angen ysgogiad a chymorth corfforaethol cryfach os yw'r cyngor am fanteisio ar dechnoleg yn fwy effeithiol;
- bod trefniadau'n gadarn gydag enghreifftiau o arfer da, ond nid oes gan yr uwch reolwyr berchnogaeth gref nac ymglymiad wrth weithredu strategaethau, cynlluniau a pholisïau; a
- bod perfformiad mewn rhai meysydd yn gadarn ac yn cael ei reoli'n gadarn, ond mae angen i'r Cyngor fanteisio ar dechnoleg yn fwy effeithiol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y buddion a'r arbedion.

**Mae dull y Cyngor o reoli gwybodaeth yn dod yn fwy trylwyr ac yn gallu cefnogi gwelliannau pellach yn y dyfodol yn well**

20 Oherwydd y pwysau ariannol cynyddol ar y sector cyhoeddus, mae angen manteisio i'r eithaf ac ymwela ar y wybodaeth sydd ar gael i gyflwyno a chynllunio gwasanaethau o ansawdd yn effeithiol. Daeth ein hadolygiad o'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli gwybodaeth i'r casgliad:

- Bod dull y Cyngor o reoli gwybodaeth yn dod yn fwy trylwyr ac mae'r trefniadau'r debygol o gefnogi gwelliannau'n well wrth i'r gwendidau sy'n weddill gael eu datrys.
- Bod y trefniadau cyfredol yn gadarn. Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ar waith, ond mae angen trafod ymhellach y modd y caiff rhai cyfrifoldebau eu dyrannu er mwyn sicrhau y cânt eu dyrannu i swyddogion â hynafedd priodol.
- Bod perfformiad yn gadarn, yn gyffredinol, a bod y Cyngor yn mynd i'r afael â llawer o'r gwendidau cyfredol ac yn creu sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau gwelliant pellach.

**Mae'r Cyngor yn ymroddedig i gynyddu dylanwad y cyhoedd ar ei fusnes a hybu ystod ehangach o ddulliau o ymgysylltu â'r cyhoedd**

21 Gellir diffinio ymgysylltu â'r cyhoedd fel 'proses sy'n dod â phobl at ei gilydd i fynd i'r afael ag ystyriaethau o bwysigrwydd cyffredin, i ddatrys problemau rhanedig, ac i ennyn newid cymdeithasol cadarnhaol. Mae ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd yn gwahodd dinasyddion i gymryd rhan mewn ystyried, trafod a gweithredu ar yr ystyriaethau sydd o bwys iddynt'.[1]

22 Canolbwyntio ein gwaith yn y Cyngor ar y dull corfforaethol cyffredinol o ymgysylltu â'r cyhoedd, gyda ffocws arbennig ar gyfranogiad cyhoeddus mewn ailgylchu. O'n gwaith, daethom i'r casgliad bod swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn ymroddedig iawn i gynyddu dylanwad y cyhoedd ar ei fusnes trwy hybu ystod ehangach o ddulliau o ymgysylltu â'r cyhoedd, ond bod angen iddo ymateb yn well i ganlyniadau ymgysylltu â'r cyhoedd. Daethom i'r casgliad hyn oherwydd:

- mae'r Cyngor wedi cydnabod manteision ymgysylltu'n fwy â'r cyhoedd ac yn ymroddedig i'r nod hwn; ac
- yn unol â'r disgwyl, mae mwy o enghreifftiau cyfredol o hysbysu ac ymgynghori nag ymgysylltu yn cynnwys penderfyniadau ar y cyd, gweithgarwch ar y cyd a grymuso.

1 Cymerwyd y diffiniad o wefan 'Public Agenda' 2010.

**Mae'r Cyngor yn bodloni ei rwymedigaeth statudol mewn perthynas â Deddf yr Iaith Gymraeg**

23 Cafodd y Cyngor ganmoliaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg am ennill barnau cadarnhaol mewn ymarferion i arolygu dogfennau etholiadol a'r wefan ac am ymrwymo i fynd i'r afael ag unrhyw ystyriaethau pwysig. Fodd bynnag, mynegodd y Bwrdd bryder ynghylch y diffyg cynnydd yn erbyn y targedau yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Cyngor. Roedd y problemau'n cynnwys: gwasanaethau cyswllt cyntaf, yn enwedig Canolfan Gyswllt y Cyngor, a pharatoi a gweithredu Fframwaith Sgiliau Ieithyddol y Cyngor. Rhoddwyd rhagor o wybodaeth i'r Bwrdd am yr ystyriaethau hyn fel rhan o gyfarfod adborth, ac mae arwyddion cadarnhaol bod y Cyngor yn gweithio i wella'r meysydd hyn.

**Mae gan y Cyngor ormod o flaenoriaethau er mwyn gallu canolbwyntio'n glir ar wneud pernderfyniadau**

24 Nid oes gan y Cyngor hanes o flaenoriaethau wedi'u dogfennu a'u mynegi'n glir sy'n rhoi ymdeimlad cryf o gyfeiriad i'r Cyngor. Mae blaenoriaethau'n bodoli ar sawl ffurf, mewn llawer o leoedd ac mae gormod ohonynt i ddarparu ffocws clir ar gyfer gwella. Mae penodi Prif Weithredwr newydd yn 2011, a dechrau cylch etholiadol newydd yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2012, yn creu cyfle i'r Cyngor ddatblygu cyfres o flaenoriaethau wedi'u symleiddio.

25 Lle mae blaenoriaethau clir wedi bodoli, maent wedi bod o ganlyniad i rymoedd allanol yn hytrach na phenderfyniadau corfforaethol mewnol. Yr enghraifft ddiweddaraf oedd y flaenoriaeth a roddwyd i Wasanaethau i Blant a Theuluoedd mewn ymateb i sefydlu Bwrdd Ymyrraeth.

**Mae'r Cyngor wedi ymateb yn dda i awgrymiadau blaenorol ar gyfer gwella, ond nid yw wedi mynd i'r afael yn llawn â'r argymhelliad statudol yn ymwneud â threfniadau'r pwyllgor cynllunio**

26 Roedd adroddiadau Asesiad Corfforaethol 2010 a 2011 ac Adroddiad Gwella Blynyddol 2011 yn cynnwys nifer o feysydd i'w gwella ar gyfer y Cyngor. Fel yr adroddwyd yn y Diweddariad ar yr Asesiad Corfforaethol ym mis Mehefin 2001, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r rhain.

27 Roedd ein Hadroddiad Gwella Blynyddol blaenorol hefyd yn cynnwys argymhelliad statudol yn gofyn i'r Cyngor nodi ei ymateb i'r argymhellion a gynhwyswyd yn ein hadroddiad ym mis Tachwedd 2010 ar drefniadau'r pwyllgor cynllunio. Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion hyn, ond mae rhagor i'w wneud o hyd. Yn benodol, mae'r Cyngor, mewn gwirionedd, wedi dewis anwybyddu'r argymhelliad sy'n gofyn iddo roi ystyriaeth lawn i drefniadau eraill ar gyfer y pwyllgor cynllunio. Mewn ymateb i'n hargymhellion, penderfynodd y Cyngor (ar 3 Chwefror 2011) adfer trefniant â dau Bwyllgor Ardal dros dro, yn amodol ar ystyried dewisiadau'n fanylach. Fodd bynnag, cadarnhaodd Hysbysiad o Gynnig i'r Cyngor ar 4 Awst 2011 mai'r trefniant dros dro hwn o gael dau Bwyllgor

Ardal oedd dull dewisol y Cyngor. Nid yw’r sail resymegol ar gyfer y penderfyniad hwn yn glir ac nid oes unrhyw dryloywder. Gwnaed y penderfyniad heb unrhyw adroddiad i gyd-fynd ag ef nac unrhyw gofnod cyhoeddus o’r rhesymau ar gyfer y Cynnig, nac unrhyw drafodaeth yn gysylltiedig â’r mater.

28 Byddwn yn cyfarfod â’r Cyngor ar ddechrau 2012 i ystyried pa gamau y mae angen i ni eu cymryd mewn ymateb i’n pryderon.

# At ei gilydd, mae'r Cyngor wedi gwneud yr hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud yn ei feysydd blaenoriaeth

29 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu ein hasesiad o berfformiad y Cyngor o ran:

- cynorthwyo pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu;
- helpu i greu amgylchedd diogel, ffyniannus a phleserus; a
- chyflawni'r amcanion gwella y gosododd iddo'i hun ar gyfer 2010-11.

## Mae'r Cyngor wedi gwella ei gymorth i bobl mewn angen

30 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu pa mor dda y mae'r Cyngor yn gwella'r modd y mae'n cynorthwyo pobl mewn angen. Mae'n adlewyrchu barn AGGCC mewn perthynas â gwasanaethau i oedolion a phlant; ac yn defnyddio ein hadolygiadau ein hunain o berfformiad y Cyngor yn erbyn amcanion gwella perthnasol eraill.

**Mae gwasanaethau i blant yn gwella**

31 Mae gwasanaethau i blant a theuluoedd wedi gwella yn ystod 2010-11. Diddymwyd y Bwrdd Ymyrraeth a roddwyd ar waith yn 2009 i hybu gwelliant ym mis Hydref 2010; fodd bynnag, mae'r cynnydd a welwyd yn ystod y tri adolygiad a gynhaliwyd gan AGGCC yn 2010 wedi parhau. Cwblhawyd y gwaith cynlluniedig o ailstrwythuro'r gwasanaeth ym mis Hydref 2010 ac mae'n cael ei fonitro a'i adolygu'n agos gan reolwyr o hyd. Gallai ad-drefnu'r modd y caiff gwasanaethau ei darparu ar raddfa fawr fod wedi amharu ar gynnydd cyffredinol ond, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, nid yw hyn wedi digwydd.

32 Mae'r Cyngor yn wynebu nifer o heriau o hyd, gan gynnwys sefydlogi ei gyllideb ar gyfer gwasanaethau i blant a theuluoedd er mwyn hwyluso datblygiad hirdymor cynaliadwy. Trefnwyd bod adnoddau ychwanegol ar gael i gefnogi'r agenda wella yn y byrdymor, ond ni ellir cynnal y lefel honno o wariant. Mae cynllun ar waith i fynd i'r afael â hyn ac, yn gorfforaethol, bu ffocws sylweddol ar wasanaethau i blant er mwyn sicrhau y caiff cynnydd ei fonitro'n agos a'i adolygu. Enillodd y bwrdd trosolwg a chraffu ar wasanaethau i blant a theuluoedd wobr genedlaethol yng 'Ngwobrau Craffu Da 2011', sy'n cael eu cynnal gan y Ganolfan er Craffu Cyhoeddus.

**Mae gwasanaethau i oedolion yn cael eu hail-lunio ac mae'r Cyngor wedi gosod y sylfeini ar gyfer gwella yn y dyfodol**

33 Erbyn mae, mae cyfeiriad gwasanaethau i oedolion yn gliriach o lawer nag a welwyd yn flaenorol. Cyflawnwyd llawer o'r cerrig milltir a'r camau gweithredu a osodwyd yn 2010-11 ac, erbyn hyn, mae fframwaith comisiynu cyffredin wedi'i sefydlu. Mae hyn wedi rhoi proffil uwch i wasanaethau i oedolion ar draws y Cyngor, yn gorfforaethol ac yn wleidyddol. Mae strategaethau allweddol a chynlluniau comisiynu yn darparu'r manylion creiddiol sy'n dechrau dangos sut mae'r Cyngor yn bwriadu gweddnewid gwasanaethau i oedolion. Mae angen datblygu'r gwaith hwn ymhellach yn 2011.

34 Mae integreiddio gwasanaethau, yn enwedig gydag iechyd, yn faes blaenoriaeth os yw'r Cyngor am wella ei berfformiad o ran hybu annibyniaeth a chynorthwyo pobl i fyw yn y gymuned, yn ogystal â gwella perfformiad mewn trefniadau rhyddhau o'r ysbyty. Mae

arwyddion o ddeilliannau gwell o ran datblygu partneriaeth ag iechyd a chyda chynghorau eraill ar sail ranbarthol. Erbyn hyn, mae datblygu gwasanaethau integredig ymhellach yn flaenoriaeth ar gyfer 2011 os yw'r Cyngor am gyflawni ei nodau allweddol. Yn 2010-11, llwyddodd gwasanaethau i oedolion i gadw at eu cyllideb ddynodedig a chyflawni'r holl arbedion angenrheidiol; bydd angen lleihau'r gyllideb oddeutu dau y cant arall ar gyfer 2011-12.

**Mae'r Cyngor wedi gwneud y rhan fwyaf o'r hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud yn ei Amcanion Gwella o ran cynorthwyo pobl mewn angen, er y bu'r effaith ar berfformiad yn gymysg**

35 Mewn perthynas ag Amcan Gwella 1 Blaenoriaeth 3 – 'Lleihau effaith tlodi ar blant a phobl ifanc ar y cyd ag eraill', yn gyffredinol, mae'r Cyngor wedi cyflawni'r camau gweithredu a osododd ar gyfer 2010-11. Amlygodd y Cyngor naw Dangosydd Llwyddiant Perthnasol. Defnyddiwyd pob un o'r rhain ar gyfer Blaenoriaeth 2 hefyd. Bu gwelliant mewn saith o'r dangosyddion a dirywiad bach iawn mewn dau ohonynt (presenoldeb ysgol). Cyflawnwyd y targed ar gyfer pob un ohonynt, ac eithrio lefelau presenoldeb mewn ysgolion cynradd, a oedd fymryn islaw'r targed.

36 Mewn perthynas ag Amcan 1 Blaenoriaeth 1 – 'Gwella Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd', gwnaed cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu arfaethedig, sydd wedi arwain at rywfaint o welliant mewn perfformiad. Caiff y casgliad hwn ei adlewyrchu yn llythyr AGGCC ar gyfer 2010-11. Nododd y Cyngor naw Dangosydd Llwyddiant Perthnasol. Cyflawnwyd y targedau ar gyfer lleoliadau a chynlluniau gofal amserol ac atgyfeiriadau i'w dyrannu; ond roedd dirywiad bach mewn perfformiad ar gyfer atgyfeiriadau i'w dyrannu. Fe wnaeth nifer yr asesiadau cychwynnol a'r asesiadau craidd (manwl) a gwblhawyd yn brydlon wella, ond ni chyrhaeddwyd y targed. Cynhwyswyd dangosydd perfformiad yn ymwneud â 'chanran yr adolygiadau amddiffyn plant a gwblhawyd o fewn y graddfeydd amser statudol' yn ddangosydd perthnasol yng nghynllun gwella Mehefin 2010, ond ni roddwyd unrhyw fanylion amdano yn yr adroddiad ôl-weithredol ym mis Medi 2011. Roedd y targedau ar gyfer tri dangosydd yn is na'r lefelau a gyflawnwyd y flwyddyn gynt. Ni fu'n bosibl i ni asesu'n ffurfiol a yw'r gwelliannau mewn perfformiad wedi arwain at fanteision i ddefnyddwyr y gwasanaeth ai peidio. Serch hynny, ni fyddai'n afresymol dod i'r casgliad bod defnyddwyr y gwasanaeth yn debygol o fod ar eu hennill o ganlyniad i'r gwelliannau mewn perfformiad.

37 Mewn perthynas ag Amcanion Gwella Blaenoriaeth 9 - 'Ail-lunio ac ad-drefnu iechyd a gwasanaethau cysylltiedig yn Abertawe', mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni tri o'r pedwar cam gweithredu a osodwyd ar gyfer 2011-11. Nododd y Cyngor bedwar dangosydd llwyddiant perthnasol. Ar gyfer 'oedi wrth drosglwyddo gofal', bu dirywiad sylweddol mewn perfformiad o dri ar gyfartaledd yn 2009-10 o 9 yn 2010-11 yn erbyn targed o chwech. Mae 'adolygiadau o gynlluniau gofal yn ystod y flwyddyn' a 'canran y cleientiaid rhwng 18 a 64 oed sy'n cael cymorth yn y gymuned' wedi gwella yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae canran y cleientiaid 65 oed neu'n hŷn sy'n cael cymorth yn y gymuned wedi gostwng i 80.4 y cant o 83.7 y cant y flwyddyn gynt ac, erbyn hyn, mae'n hafal â'r cyfartaledd yng Nghymru.

38 Mewn perthynas ag Amcanion Gwella 4 Blaenoriaeth 10 - 'Hybu ac annog ffyrdd iachach o fyw', mae'r Cyngor wedi gwneud y rhan fwyaf o'r hyn y dywedodd yr oedd am ei wneud. Fodd bynnag, nid ymddengys bod hyn wedi cael effaith o ran y dangosyddion perfformiad, ar hyn o bryd. Nododd y Cyngor saith dangosydd llwyddiant perthnasol; ystyriwyd bod pedwar ohonynt yn berthnasol i Flaenoriaeth 9 hefyd, ac adroddwyd ar y rhain uchod. Roedd perfformiad o ran 'Oedolion sy'n cwblhau 5 x 30 munud o ymarfer corff yr wythnos' yn gyson â'r flwyddyn gynt, sef 27 y cant, ac yn is na'r targed o 32 y cant. Dirywiodd perfformiad mewn 'Ymweld â chanolfannau hamdden sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor' o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, ac roedd islaw'r targed ac islaw'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae canran y 'busnesau â risg uchel sy'n cael arolygiadau Iechyd a Diogelwch' yn 100 y cant o hyd. Nid yw'r mesurau perfformiad sydd ar waith ar gyfer y flaenoriaeth hon yn galluogi'r Cyngor i fonitro perfformiad yn y maes hwn yn llawn. Fodd bynnag, trwy ddefnyddio cerrig milltir, gall y Cyngor feintioli cyflawniad mewn perthynas â chamau gweithredu penodol.

## Mae'r Cyngor yn darparu cymorth da i helpu pobl i ddatblygu

39 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu pa mor dda y mae'r Cyngor yn gwella'r modd y mae'n helpu pobl i ddatblygu. Mae'n defnyddio tystiolaethau o'n hadolygiadau ein hun o berfformiad y Cyngor yn erbyn amcanion gwella penodol a barn Estyn am berfformiad addysg.

**Mae perfformiad addysg yn dda, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd**

40 Mae'r casgliad uchod a'r paragraffau dilynol sy'n tanategu'r casgliad hwnnw yn cynrychioli barn Estyn.

41 At ei gilydd, mae safonau cyflawniad dysgwyr mewn ysgolion yn Abertawe yn dda. Pan ystyrir ystod o wybodaeth gyd-destunol, mae perfformiad disgyblion yn Abertawe fymryn yn is na'r cyfartaledd yng Nghyfnod Allweddol 1, yn gyfartalog yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn dda yng Nghyfnod Allweddol 3. Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae perfformiad yn dda, yn gyffredinol, ac yn dda iawn yn y mesurau hynny sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Yn erbyn y dangosyddion hyn, mae dros hanner yr ysgolion uwchradd yn y chwarter uchaf o'u cymharu ag ysgolion tebyg.

42 Yn 2010, roedd Abertawe'n bodloni neu'n rhagori ar ddau o dri meincnod Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, wedi'i seilio ar yr hawl i gael prydau ysgol am ddim. Roedd hyn yn welliant o gymharu â'r flwyddyn gynt, ond nid oedd cystal ag yn 2008 pan gyrhaeddodd Abertawe bob un o'r meincnodau hyn.

43 Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ychydig yn is na’r cyfartaledd wrth ystyried gwybodaeth gyd-destunol. Gwellodd nifer y gwaharddiadau o ysgolion yn 2010 ac mae’n well na’r cyfartaledd yng Nghymru.

**Mae’r Cyngor wedi gwneud yr hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud yn ei Amcan Gwella yn ymwneud ag addysg, ac mae hyn wedi arwain at welliant cyffredinol mewn perfformiad**

44 Mewn perthynas ag Amcan Gwella 1 Blaenoriaeth 2 - ‘Symud rhaglen Ansawdd mewn Addysg 2020 (QED2020) yn ei blaen a gwella sgiliau ar gyfer dysgu, gweithio a bywyd’; mae’r Cyngor wedi cyflawni’r camau gweithredu a osododd ar gyfer 2010-11. Nododd y Cyngor 13 Dangosydd Llwyddiant Perthnasol. Defnyddiwyd y naw cyntaf o’r rhain ar gyfer Blaenoriaeth 3 hefyd. Bu gwelliant mewn 10 o’r dangosyddion a mân ddirywiad mewn tri ohonynt (presenoldeb ysgol ac ‘Asesiad Athrawon mewn Cymraeg (iaith gyntaf)’ ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2). Cyflawnwyd y targed ar gyfer pob un o’r dangosyddion heblaw am dri ohonynt - sef lefelau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac asesiadau athrawon mewn Cymraeg, a oedd fymryn islaw’r targed. Roedd y targedau ar gyfer saith o’r dangosyddion islaw’r lefelau a gyflawnwyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

## Mae’r Cyngor wedi gwneud y rhan fwyaf o’r hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud i helpu i greu a chadw’r ardal yn lle diogel, ffyniannus a phleserus

45 Mae’r rhan hon o’r adroddiad yn amlinellu pa mor dda y mae’r Cyngor yn gwella’r modd y mae’n helpu pobl i greu a chadw’r ardal yn lle diogel, ffyniannus a phleserus. Mae’r defnyddio tystiolaeth o’n hadolygiad o berfformiad y Cyngor o ran mynd i’r afael ag anweithgarwch economaidd a’n hadolygiadau o berfformiad y Cyngor yn erbyn amcanion gwella penodol.

**Dylai camau gweithredu’r Cyngor, yn gweithio ar ei ben ei hun ac â’i bartneriaid, gael effaith fanteisiol ar anweithgarwch economaidd yn yr ardal**

46 Mae’r Cyngor yn rhan o nifer o brosiectau i fynd i’r afael ag anweithgarwch economaidd. Mae mentrau penodol yn cynnwys Workways, Y Tu Hwnt i Frics a Morter (BBM) a phrosiect i wella cydweithio rhwng y gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael i unigolion sy’n economaidd anweithgar.

47 At ei gilydd, mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni’r deilliannau gofynnol. Mewn llawer o achosion, rhagorwyd ar dargedau allweddol, er enghraifft, nifer y swyddi dros dro a grëwyd, nifer y bobl a gofrestrodd â menter BBM a nifer y mentrau bach a chanolig a gafodd cymorth i ddatblygu.

48 Mae tystiolaeth o rai camau gweithredu da i symud y prosiect i wella cydweithio yn ei flaen, ond mae natur y prosiect hwn yn ei gwneud yn anodd asesu pa effaith y mae’r rhain wedi’i chael ar sicrhau’r canlyniad dymunol.

49 Mae camau gweithredu allweddol yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys cynhyrchu Cyfeirlyfr Prosiectau Abertawe a defnyddio digwyddiadau rhwydweithio rhwng timau prosiectau i hwyluso'r defnydd effeithiol o adnoddau trwy rannu gwybodaeth, a thrwy gydweithio rhwng y prosiectau amrywiol.

50 Un o brif uchelgeisiau'r Cyngor oedd dod â'r holl elfennau gwahanol o'r prosiectau sy'n mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd at ei gilydd, dan y prosiect Porth, i ddarparu un man cyfeirio ar gyfer unigolion yr oedd y Cyngor yn ceisio eu cyrraedd. Bu hyn yn anoddach i'w gyflawni na'r disgwyl, oherwydd bod prosiectau a mentrau gwahanol yn rhedeg ar gyflymderau gwahanol ac i derfynau amser gwahanol. Felly, er enghraifft, erbyn i brosiect Workways gael ei gytuno ar lefel ranbarthol, roedd mentrau eraill wedi symud ymlaen.

51 Mae lefel gadarnhaol o ymgysylltiad rhwng y Cyngor a'i bartneriaid yn y prosiectau hyn er mwyn mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a chyfrifoldebau, ac mae atebolrwydd mewn perthynas â'r prosiectau hyn yn cael ei ddeall yn glir. Yn bwysig, mae bodolaeth ac ymglymiad partneriaid wedi golygu bod y Cyngor wedi gallu symud rhai rhannau allweddol o'i brosiectau ymlaen, nid o fewn y Cyngor yn unig, ond trwy ei sefydliadau partner hefyd.

52 Mae'r Cyngor yn adrodd ar gynnydd prosiectau sy'n mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd i nifer o grwpiau rhanddeiliaid, ac mae hyn wedi'i deilwra ar gyfer pob grŵp. Gellir gwneud rhai gwelliannau i adroddiadau ffurfiol, a dylai'r Cyngor ystyried ei drefniadau craffu mewn perthynas â'r prosiectau hyn. Yn benodol, dylai swyddogion craffu ystyried y ffordd orau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r pwyllgor trosolwg a chraffu ar bartneriaethau am gefndir prosiectau, fel y gall cyfarfodydd ganolbwyntio ag agweddau ar bartneriaethau, yn unol â chylch gorchwyl y pwyllgor hwnnw. Dylid ystyried neilltuo amser i fwrdd trosolwg a chraffu'r amgylchedd a chymunedau ystyried y prosiectau hyn.

**Mae'r Cyngor wedi gwneud y rhan fwyaf o'r hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud yn ei Amcanion Gwella o ran helpu i greu a chadw'r ardal yn lle diogel, ffyniannus a phleserus, er y bu'r effaith ar berfformiad yn gymysg**

53 Mewn perthynas ag Amcan Gwella 2 Blaenoriaeth 4 - 'Sicrhau y caiff pob man cyhoeddus mewn cymdogaethau eu cynnal a'u cadw'n dda', mae'r Cyngor wedi cyflawni'r camau gweithredu a osododd ar gyfer 2010-11, yn gyffredinol, ond bu ychydig bach o ddirywiad yn 2010-11 o gymharu ag yn 2009-10 ym mhob un o'r dangosyddion dewisol. Ni chyflawnwyd y targed o 95 y cant ar gyfer 'glendid priffyrdd'. Cyflawnwyd y targedau ar gyfer tipio anghyfreithlon a graffiti, ond roedd perfformiad yn erbyn y ddau darged wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn gynt.

54 Mewn perthynas ag Amcan Gwella 2 Blaenoriaeth 5 - 'Lleihau ôl troed ecolegol Abertawe trwy annog lleihau gwastraff, cynyddu ailgylchu a lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi', mae'r Cyngor wedi cyflawni'r camau gweithredu a osododd ar gyfer 2010-11, yn gyffredinol. Cyflawnodd ei dargedau ar gyfer y ddau ddangosydd dewisol. Mae perfformiad yn erbyn y dangosydd 'faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi' wedi gwella ond, ar 59 y cant, nid yw cystal â'r cyfartaledd yng

Nghymru, sef 51 y cant. Yn yr un modd, mae'r dangosydd 'faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu/gompostio', sef 40 y cant, ychydig islaw'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 44 y cant. Ar gyfer y dangosydd hwn, nid oedd unrhyw darged penodol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2010-11, ac mae'r Cyngor yn cyflawni'r targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2009-10, sef 40 y cant. Daw'r targed hwn yn 52 y cant ar gyfer 2012-13.

55 Mewn perthynas ag Amcan Gwella 2 Blaenoriaeth 6 – 'Annog darpariaeth tai fforddiadwy, o ansawdd da sydd wedi'u rheoli'n dda yn Abertawe a gweithio tuag at wella Tai'r Cyngor i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru', mae'r Cyngor wedi cyflawni dau o'r pedwar cam gweithredu a osododd ar gyfer 2010-11. Bu gwelliant yn y dangosyddion perfformiad perthnasol, er na osodwyd targedau ar gyfer nifer o'r dangosyddion hynny.

56 Mewn perthynas ag Amcan Gwella 3 Blaenoriaeth 7 - 'Darparu system drafnidiaeth fwy integredig sy'n hybu defnydd trafnidiaeth gyhoeddus', mae'r Cyngor wedi cyflawni'r camau gweithredu a osododd ar gyfer 2010-11. Nid yw'r Cyngor wedi amlygu'r dangosyddion perfformiad sy'n arbennig o berthnasol i'r flaenoriaeth na'r camau gweithredu arfaethedig. Dewiswyd dau ohonynt a bu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth Parcio a Theithio ers y flwyddyn gynt, ac ni chyflawnwyd y targed. Cyflawnwyd y targed o 95 y cant o oedolion 60 oed neu'n hŷn yn meddu ar gardiau bws rhatach.

57 Mewn perthynas ag Amcan Gwella 3 Blaenoriaeth 8 - 'Gwella a datblygu seilwaith sy'n cefnogi adfywio economaidd yn Abertawe gan ganolbwyntio ar Ganol y Ddinas, Y Glannau, Safleoedd Cyflogaeth Strategol ac Ardaloedd Adfywio', mae'r Cyngor wedi cyflawni'r mwyafrif o'r camau gweithredu a osododd ar gyfer 2010-11. Nid ymddengys bod rhai o'r dangosyddion perfformiad a amlygwyd gan y Cyngor yn arbennig o berthnasol i'r camau gweithredu a gynlluniwyd gan y Cyngor i gyflawni'r flaenoriaeth hon. Dirywiodd perfformiad mewn 'penderfynu ar geisiadau cynllunio pwysig yn gyflym' o 42 y cant i 17 y cant, ac ni chyrhaeddwyd y targed, sef 40 y cant. Roedd rhywfaint o welliant mewn 'penderfynu ar geisiadau cynllunio deiliaid tai yn gyflym'. Roedd 'gwerth mewnfuddsoddiad ar gyfer prosiectau wedi'u seilio ar eiddo', sef £45 miliwn, yn welliant mawr ers y flwyddyn gynt, sef £23 miliwn, ac ymhell y tu hwnt i'r targed o £25 miliwn.

**Roedd ehangder amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-2011 yn ei gwneud yn anodd iddo ddangos gwelliant ym mhob un ohonynt**

58 2010-11 oedd y flwyddyn gyntaf y bu'n ofynnol i gynghorau lunio amcanion gwella. Roedd yr Amcanion Gwella a nodwyd ar gyfer 2010-11 yn drosiannol iawn, ac roedd y Cyngor yn ymwybodol o hyn ac yn bwriadu eu diwygio ar gyfer 2011-12. Yn unol â'n hawgrymiadau yn ein hasesiad corfforaethol yn 2010-11, mae amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2011-12 wedi'u llywio'n well gan ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd nag y llynedd. Eto, yn unol â'n hawgrymiadau, mae'r Cyngor wedi disodli'r amcanion gwella eang iawn a osododd y llynedd â phum amcan sy'n canolbwyntio ar feysydd gwasanaeth allweddol.

59 Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, dywedom:

‘Mae amcanion gwella trosiannol y Cyngor yn gyffredinol iawn, gan gwmpasu bron yr holl brif wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Nid yw'r dull hwn yn ei gwneud yn hawdd i ddinasyddion ddeall beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer y Cyngor ac mae'n gwneud i ni amau a ellir cyflawni pob un ohonynt ar adeg pan fo toriadau mewn gwariant cyhoeddus. Rydym hefyd o'r farn bod dull o'r fath yn ei gwneud yn fwy anodd i ddinasyddion ddwyn y Cyngor i gyfrif neu i ddeall beth yn union y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni.’

60 Mae’r sefyllfa yn ymwneud ag amcanion gwella wedi’i chymhlethu ymhellach gan ddiffyg perchenogaeth ymddangosiadol ohonynt o fewn cyfarwyddiaethau a’r gormodedd o flaenoriaethau cystadleuol sy’n bodoli ar draws y Cyngor. Mae hyn wedi arwain at gysylltiadau gwael rhwng yr amcanion gwella a chynlluniau gweithgarwch adrannol nad oeddent yn canolbwyntio ar gyflawni’r amcanion gwella. Mae’r ffactorau hyn yn cyfuno i roi’r argraff bod y broses o amlygu a chyflawni amcanion gwella y tu allan i weithgarwch bob dydd y Cyngor. Gall y diffyg perchenogaeth a’r anghytundeb rhwng yr uchelgais eang a’r adnoddau i’w chyflawni esbonio pam, mewn rhai achosion, y gosodwyd targedau gwella is na’r lefel a gyflawnwyd y flwyddyn gynt. Mae gosod targedau is yn berffaith ddilys mewn meysydd lle mae’r Cyngor wedi gwneud penderfyniad gwybodus i ddadfuddsoddi, ond yn anodd ei gyfiawnhau mewn meysydd a ddewiswyd ar gyfer eu gwella.

61 Cymhlethdod arall wrth asesu cyflawniad y Cyngor mewn perthynas â’i amcanion gwella, yw er ei bod yn bosibl penderfynu p’un a gwblhawyd y camau gweithredu arfaethedig hyn ai peidio, nid yw’n bosibl penderfynu pa effaith y mae’r camau gweithredu hyn wedi’i chael. Fel y gwelir uchod, mae’r darlun cyffredinol yn dangos bod camau gweithredu wedi’u cwblhau i raddau helaeth, ond bod yr effaith ar berfformiad yn gymysg.

## Mae'r Cyngor yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu ond nid yw'n gwerthuso canlyniad y camau gweithredu hyn yn gyson; mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i adrodd a disgrifio gwelliant mewn modd arwyddocaol

62 Mae hunanasesu cadarn yn hanfodol i allu'r Cyngor i:

- gydnabod y cynnydd y mae'n ei wneud;
- cymryd camau adferol pan nad yw perfformiad yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig; ac
- adrodd ar ei berfformiad i ddinasyddion lleol mewn modd cytbwys.

63 Er mwyn asesu'r cynnydd y mae'n ei wneud, mae angen gwybodaeth dda am berfformiad a threfniadau monitro cadarn ar y Cyngor. Caiff gwybodaeth am berfformiad ei hadrodd a'i monitro ar sawl lefel o fewn y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cynnal cyfarfodydd Perfformiad a Monitro Ariannol (PFM) misol, sy'n cynnwys ystyried gwybodaeth am berfformiad a dangosyddion perthnasol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys adolygu gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau allweddol a thargedau, gan gynnwys Cytundebau Canlyniadau. Mewn meysydd lle mae'r Cyngor wedi amlygu'r angen i wella, caiff cynlluniau gweithredu eu datblygu.

64 Caiff dangosyddion perfformiad y Cyngor eu monitro a'u hadrodd bob chwarter a phob blwyddyn i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac i Aelodau a'r cyhoedd trwy Fyrddau Craffu'r Cabinet a'r Cyngor. Yn ogystal, lle mae Rhaglen Strategol ar waith (er enghraifft, QED2020 mewn Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd), caiff cynnydd yn erbyn y rhaglen ei adrodd i'r Bwrdd Rhaglenni Strategol yn fisol. Nid oedd unrhyw ddull ar waith i alluogi'r Cyngor i fonitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella cyfan yn uniongyrchol yn ystod y flwyddyn. Edrychwyd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella er mwyn gallu llunio'r adroddiad adolygu ôl-weithredol yn unig.

65 Mae'r atebolrwydd ar gyfer meysydd sy'n tanategu llawer o rannau o Gynllun Gwella'r Cyngor, er enghraifft y Rhaglen Strategol, wedi'i hen sefydlu. Fodd bynnag, ymddengys bod perchenogaeth o'r Cynllun Gwella a'r Adroddiad Blynyddol y tu allan i'r tîm perfformiad busnes canolog yn fwy cyfyngedig. Gellir gwella'r gwaith o ddrafftio'r Adroddiad Blynyddol trwy sicrhau rhagor o fewnbwn gan swyddogion arweiniol a Phenaethiaid Gwasanaeth.

66 Mae'r Cyngor wedi defnyddio ystod o ffynonellau yn ei Adroddiad Blynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys dangosyddion perfformiad â thueddiadau a chymaryddion, barnau o'r panel dinasyddion ac arolygon tenantiaid. Mae'r Cyngor wedi gallu dangos tystiolaeth o b'un a yw wedi cyflawni'r camau gweithredu a'r cerrig milltir arfaethedig o fewn pob un o'r amcanion gwella ai peidio, felly mae wedi gallu llunio barn am ei gynnydd. Fodd bynnag, oherwydd problemau'n ymwneud â pherthnasedd rhai o'r dangosyddion perfformiad a'r targedau gwrthnysig yr olwg a osodwyd, mae'n anodd asesu a yw cwblhau'r camau gweithredu wedi arwain at fanteision i ddefnyddwyr gwasanaethau ai peidio.

67 Fel y mynegwyd uchod, caiff gwerthusiad llawn o berfformiad ei rwystro gan ddiffyg mesurau i asesu p'un a yw'r cynnydd a wnaed yn unol â'r hyn yr oedd y Cyngor yn anelu at ei gyflawni ai peidio. Nid yw'r Adroddiad yn cynnwys asesiad cyffredinol o gynnydd y Cyngor a byddai llawer o ddinasyddion yn ei chael yn anodd dod i gasgliad cywir o gynnydd y Cyngor yn

2010-11 o ddarllen yr adroddiad hwn. Nid yw'r Adroddiad yn cynnwys unrhyw arfarniad beirniadol go iawn o farn y Cyngor am ei berfformiad yn gyffredinol, a'r hyn y mae am ei wneud yn wahanol o ganlyniad i hynny.

68 Barn gyffredinol y Cyngor am ei lwyddiant o ran cyflawni ei Amcanion Gwella yw ei fod wedi gwneud cynnydd da yn erbyn cefnlen heriol. Nid yw hyn, ynddo'i hyn, yn asesiad afresymol. Fodd bynnag, ar lefel fanylach y blaenoriaethau unigol sy'n tanategu'r Amcanion Gwella, nid yw'r prif gyhoeddiad yn cyflwyno darlun arwyddocaol a chytbwys o berfformiad bob tro. Gwneir llawer o bwyntiau cadarnhaol, ond nid yw'r meysydd lle mae perfformiad wedi dirywio, meysydd lle nad yw'r targedau wedi'u bodloni a'r meysydd lle mae'r Cyngor yn perfformio islaw'r cyfartaledd Cymru, yn cael eu crybwyll yn y naratif bob tro. Er bod y data crai ar Ddangosyddion Perfformiad ar gael yn Atodiad B i'r adroddiad, mae hyn yn gofyn i'r darllenydd gwblhau ei ddadansoddiad ei hun er mwyn dod i gasgliad ar berfformiad. Yn benodol, sylwn y defnyddir yr un ymadrodd ar gyfer pob blaenoriaeth, sef; 'rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r flaenoriaeth hon a'r camau gweithredu a nodwyd yng Nghynllun Gwella'r llynedd'.

69 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu bod y Cyngor wedi cyflawni ei holl ddyletswyddau mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth am wella. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn ymddwyn yn fwy unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru wrth gyhoeddi gwybodaeth, yn benodol o ran:

- datblygu mesurau â ffocws gwell i ddangos tystiolaeth o ddeilliannau;
- cymharu ei berfformiad yn well ag awdurdodau gwella eraill yng Nghymru a chyrff cyhoeddus eraill;
- esbonio'n glir pam y mae'r cymariaethau a wnaed, a'r rhai nad ydynt wedi'u gwneud, wedi'u cynnwys;
- esbonio'n well sut yr ystyriodd p'un a oedd am gydweithio ai peidio, a ph'un a wnaeth cydweithredu gyflawni'r deilliannau arfaethedig ai peidio; a
- chyflwyno'r wybodaeth mewn modd mwy arwyddocaol a chytbwys.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd ag Asesiad Gwella blynyddol, ac i gyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19 i gyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 a datgan a ydyw, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, o'r farn fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr Asesiad Gwella ei lywio gan asesiad blaengar o ba mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ynglŷn â sut lwyddodd yr awdurdod i wella. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o gasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol am hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad amdanynt i'r awdurdodau a'r gweinidogion perthnasol, a gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Fe all yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Abertawe a Chyngor Dinas a Sir Abertawe

## Y Cyngor

Mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn gwario tua £545 miliwn y flwyddyn (2010-11). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,350 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £55.5 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer Band D yn 2010-11 ar gyfer Abertawe oedd £1,121.26 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 3.6 y cant i £1,161.65 y flwyddyn ar gyfer 2011-12. Mae 76.6 y cant o'r tai yn Abertawe ym mandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 72 aelod etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 3 Cymuned Abertawe
- 26 o'r Blaid Lafur
- 1 Anymochrol
- 36 o Weinyddiaeth Abertawe
- 5 o'r Ceidwadwyr Cymreig

Jack Straw yw Prif Weithredwr Cyngor Dinas a Sir Abertawe, a chaiff ei gefnogi gan:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg: Richard Parry
- Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol: Phil Hodgson
- Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Thai: Phil Roberts
- Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd: Reena Owen

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad ar gyfer Abertawe yw:

- Edwina Hart, Gŵyr, y Blaid Lafur
- Mike Hedges, Dwyrain Abertawe, y Blaid Lafur
- Julie James, Gorllewin Abertawe, y Blaid Lafur
- Suzy Davies, Gorllewin De Cymru, y Ceidwadwyr Cymreig
- Peter Black, Gorllewin De Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Byron Davies, Gorllewin De Cymru, y Ceidwadwyr Cymreig
- Bethan Davies, Gorllewin De Cymru, Plaid Cymru

Yr Aelodau Seneddol ar gyfer Abertawe yw:

- Martin Caton, Gŵyr, y Blaid Lafur
- Sian James, Dwyrain Abertawe, y Blaid Lafur
- Geraint Davies, Gorllewin Abertawe, y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor ei hun yn www.abertawe.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Dinas a Sir Abertawe, y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN.

# Atodiad 3
# Cyfrifon Cyngor Dinas a Sir Abertawe a'i ddefnydd o adnoddau

Cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yr adroddiad archwilydd canlynol ar 30 Medi 2011.

## Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Dinas a Sir Abertawe

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Dinas a Sir Abertawe
- Grŵp Dinas a Sir Abertawe
- Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Dinas a Sir Abertawe'n cynnwys: y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad o Symudiad ar y Cyfrif Refeniw Tai a'r Datganiad o Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai.

Mae datganiadau cyfrifyddu Grŵp Dinas a Sir Abertawe yn cynnwys: Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn y Grŵp, Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant y Grŵp, Mantolen y Grŵp a Datganiad Llif Arian y Grŵp.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe yn cynnwys: Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad o Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010-11, sydd wedi'i seilio ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

## Cyfrifoldebau priodol y swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd cyffredinol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon a osodwyd ar dudalen 193, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r Datganiad o Gyfrifon, gan gynnwys cyfrifon y Grŵp a'r Gronfa Bensiwn, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonol Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn cynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol, p'un a yw wedi'i achosi gan dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol ar gyfer amgylchiadau Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Grŵp Dinas a Sir Abertawe a Chronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe ai peidio ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymolrwydd amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenais yr holl wybodaeth ariannol a heb fod yn ariannol yn y Rhagair Esboniadol a'r datganiad Cynaliadwyedd ac Adrodd Amgylchedd er mwyn amlygu unrhyw anghysondebau sylweddol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os daw unrhyw gamddatganiadau neu anghysondeb sylweddol i'r amlwg, rwyf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

## Barn am ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Dinas a Sir Abertawe ar 31 Mawrth 2011 ac o'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Chod Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010-11.

## Barn am ddatganiadau cyfrifyddu Grŵp Dinas a Sir Abertawe

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Grŵp Dinas a Sir Abertawe ar 31 Mawrth 2011 ac o'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Chod Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010-11.

## Barn am ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe yn ystod y flwyddyn a daeth i ben ar 31 Mawrth 2011 ac o swm a threfniadaeth asedau ac atebolrwyddau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Chod Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010-11.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Esboniadol a'r datganiad Cynaliadwyedd ac Adrodd Amgylcheddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu, yr wyf yn adrodd arno os nad yw, yn fy marn i, yn cydymffurfio â *Delivering Good Governance in Local Government: Framework* a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

## Oedi o ran ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad

Mae'n ofynnol i mi fynegi barn am ddatganiadau ariannol y gronfa bensiwn sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe. Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn erbyn 1 Rhagfyr 2011. Gan nad yw'r Awdurdod wedi paratoi'r Adroddiad Blynyddol hyd yn hyn, ni fu'n bosibl i mi ddarllen y wybodaeth arall i'w chyhoeddi â'r datganiadau ariannol hynny, ac nid wyf wedi cyhoeddi fy adroddiad ar y datganiadau ariannol hynny. Hyd nes i mi wneud hynny, nid oes modd i mi ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Dyddiad: 30 Medi 2011

*Cyngor Dinas a Sir Abertawe sy'n gyfrifol am gynnal gwefan Cyngor Dinas a Sir Abertawe a sicrhau ei chywirdeb; nid yw'r gwaith sy'n cael ei gwblhau gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am newidiadau a all fod wedi'u gwneud i'r Datganiad o Gyfrifon ers iddo gael ei gyhoeddi ar y wefan y tro cyntaf.*

Mae gan etholwyr lleol a phobl eraill hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon am y flwyddyn ariannol flaenorol, o gwmpas mis Mehefin neu fis Gorffennaf fel arfer, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd archwilio pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl trefnu eu bod ar gael. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon am y flwyddyn mae'n eu harchwilio. Er enghraifft, gallwch yn syml iawn ddweud wrth yr archwilydd os credwch fod rhywbeth yn anghywir â'r cyfrifon neu am wastraff ac aneffeithlonrwydd yn y modd y mae'r Cyngor yn rhedeg ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth gweler taflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu drwy ysgrifennnu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Dinas a Sir Abertawe

## Amcanion gwella Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau mae'n eu darparu. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Gosododd Cynllun Gwella Corfforaethol Blynyddol Abertawe ar gyfer 2010-11, sef 'Bodloni'r Her', bedwar Amcan Gwella iddo eu cyflwyno'r flwyddyn honno. Ar gyfer 2011-12, mae'r cyngor wedi adolygu'r amcanion hyn ac wedi ychwanegu pumed amcan i'w gyflawni eleni. Mae Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer y llynedd ac eleni fel a ganlyn:

| | Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 |
|---|---|
| **1** | Gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc, sicrhau'r lles gorau posibl, codi safonau cyrhaeddiad a chyflawniad a sicrhau eu bod yn ddiogel fel bod y Ddinas a'r Sir yn darparu cyfleoedd addysg ardderchog. |
| **2** | Gwella a diogelu ein hamgylchedd a gwneud i gymunedau deimlo'n fwy diogel fel bod y Ddinas a'r Sir yn lle gwych i fyw ynddo. |
| **3** | Gwella perfformiad economaidd Abertawe fel bod y Ddinas a'r Sir yn cynnal economi ffyniannus. |
| **4** | Gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fel bod pawb yn y Ddinas a'r Sir yn cefnogi ac yn hyrwyddo iechyd da. |

| | Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2011-12 |
|---|---|
| **1** | Sicrhau bod gan oedolion iau, pobl hŷn a gofalwyr fwy o ddewis a rheolaeth dros y gefnogaeth y maent yn ei derbyn drwy drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. |
| **2** | Sicrhau y diogelir ac y cefnogir plant diamddiffyn drwy gynnal a pharhau gyda gwelliannau i wasanaethau plant a theuluoedd. |
| **3** | Gwella deilliannau dysgu a helpu disgyblion i gyflawni eu potensial. |
| **4** | Lleihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu drwy hyrwyddo a hwyluso cyflwyno gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu. |
| **5** | Gwella cyflogadwyedd pobl drwy gynyddu effaith rhaglen adfywio'r cyngor i gynnig a hwyluso hyfforddiant a lleoliadau profiad gwaith. |

Mae Cynllun Gwella Corfforaethol Blynyddol y Cyngor i'w weld ar wefan y Cyngor yn http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=155

## Hunanasesiad Cyngor Dinas a Sir Abertawe o berfformiad

Cyhoeddwyd hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2010-11 ar 31 Hydref 2011 a gellir ei weld yn ei Adolygiad o Berfformiad Blynyddol 2010-11 *Gwahaniaeth er Gwell* ar wefan y Cyngor yn http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=155

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk